

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Adroddiad Blynyddol 2020/2021

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**
- 3. Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru**
- 4. Cyllid**
- 5. Symud Ymlaen**

1. Cyflwyniad

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Mae'n adroddiad byr a fydd yn ymdrin â rhwng Tachwedd 2020 a 31 Mawrth 2021 a dim ond ym mis Ionawr 2021 y dechreuodd y Tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel weithredu. Bydd adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn darparu gwybodaeth bellach, gan gynnwys trosolwg o'r flwyddyn gan gyd-Gadeiryddion Byrddau Cymunedau Mwy Diogel Cymru, sy'n darparu arweinyddiaeth i waith y Rhwydwaith.

2. Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Cynhaliwyd recriwtio ar gyfer tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, gan gynnwys aelodau o'r Bwrdd neu gynrychiolwyr aelodau'r Bwrdd. Dechreuodd pob un o'r pedwar aelod o dîm y Rhwydwaith yn ystod Ionawr 2021. Penodwyd i bedair swydd: Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel; Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith; Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau; a Swyddog Cymorth Busnes.

Cynhaliodd y tîm Rhwydwaith newydd ei ffurfio y gweithgareddau canlynol cyn diwedd mis Mawrth 2021:



- Datblygu **Cynllun Strategol Rhwydwaith** blwyddyn ar dudalen.
- Creu **Stori Brand** a Negeseuon Allweddol.
- Cynnal mapio **rhanddeiliad**.
- Datblygu **Strategaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chyfranogi** a Chynllun Cyfathrebu mewnol cyfatebol.
- **Creu BRIFF** - Cylchlythyr sganio amgylcheddol wythnosol a gylchredwyd trwy restr ddsbarthu a gynyddodd gyda cheisiadau i dderbyn y Briff ac a dderbyniodd lawer o adborth cadarnhaol o fewn y misoedd cyntaf, gan gynnwys:

“Roeddwn i eisiau mynegi fy niolch i chi am gynhyrchu'r cylchlythyrau wythnosol. Maent yn addysgiadol iawn ac rwy'n eu canfod yn wych ar gyfer cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion a deddfwriaeth ac ati, yn ogystal â'u defnyddio ar gyfer pwyntiau cyfeirio ar gyfer pynciau penodol. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan swyddogion a thimau diogelwch cymunedol, ac yn sicr ni fyddai gennym yr amser i ymchwilio i'r wybodaeth hon ein hunain. Rwy'n hoff iawn o'r ffaith eu bod yn wythnosol gan fod pethau'n newid yn gyflym o fewn diogelwch cymunedol, ac efallai y bydd gan unrhyw beth mwy nag wythnos ormod o gynnwys i'w dreulio neu fod y cynnwys yn dyddio yn gyflym iawn.

Diolch yn fawr i'ch tîm am yr adnodd gwych hwn a sicrhau bod timau diogelwch cymunedol yn aros ar flaen y gad!!”

Gary Black, Rheolwr Gwasanaeth Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Strategol

“Rwy'n gweld y Briff yn hynod ddefnyddiol i gael y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf ar gyfer diogelwch cymunedol. Yn benodol, rwy'n credu bod yr adran 'digwyddiadau' yn rhywbeth newydd nad wyf wedi ei weld yn cael ei gynhyrchu gan unrhyw un arall, felly mae'n ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol iawn. Rwy'n rhannu'r Briff gyda'r tîm Uned Atal Trais, a hefyd yn cynnwys adnoddau a rennir yn y Briff yn e-Fwletin misol yr Uned Atal Trais a rennir â'n holl randdeiliaid (tua. 460 o bobl).”

Bryony Parry, Uned Atal Trais Cymru

- Wedi darparu **ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth** ar gyfer cyfarfodydd Rhwydwaith Arloesi a Gwella Dadansoddi Data Cymru (WDAIIN), a Chymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO).
- Sefydlu presenoldeb **cyfryngau cymdeithasol** trwy sefydlu cyfrifon Twitter Cymraeg a Saesneg - @CymMwyDiogel a @WalesSaferComms.
- Wedi cynnal **arolwg o'r Gweithlu** - creu'r arolwg cyntaf a'i gylchredeg ledled Cymru.
- Datblygu **dogfennau mewnol**, gan gynnwys Cynllun Gwaith, Cofrestr Risg, Rhestr Gyswilt, a Phrosesau.
- Comisiynu a sefydlu datblygiad **gwefan** cymunedau mwy diogel a **chyfres podlediadau**.
- Wedi cynnal ystod o **gyfarfodydd rhithwir** - cwrdd yn unigol â 47 o unigolion a sefydliadau partner.
- Mynychu mwy na deg **cyfarfod partneriaeth** gyda'r Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Llywodraeth Leol, ac eraill ledled Cymru.
- Ymateb i un **ymgyngoriad**.
- Wedi cynorthwyo i ddiweddarau **Cylch Gorchwyl Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru** a **datblygu'r Rhaglen Waith**.

3. Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Cytunodd y Bwrdd ar eu pum blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod (2021/22):

1. Caiff diogelwch cymunedol ei integreiddio ar draws yr holl feysydd polisi / partneriaethau perthnasol.
2. Y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel yw'r fforwm cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer yr holl sectorau sy'n ymwneud â gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol.
3. Mae'r egwyddor 'Seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth' a'i weithrediad o fewn gwaith partneriaeth lleol/rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan adnoddau cynaliadwy.

4. Mae diogelwch cymunedol yn canolbwyntio ar atal ac yn croesawu ymagwedd iechyd cyhoeddus.
5. Dysgu oddi wrth raglenni cysylltiedig a chyd-ddibynnol eraill.

4. Cyllid

Daeth yr incwm ar gyfer 2020/21 gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phlismaona yng Nghymru.

5. Symud Ymlaen

Er mai dim ond ers ychydig fisoedd y mae tîm y Rhwydwaith wedi bod ar waith, mae eisoes nifer o feysydd gwaith yn cael eu datblygu ac a fydd yn cael eu cyflawni yn 2021/22, gan gynnwys:

- Gwefan
- Podlediadau
- Ffeithlun deinamig
- Seminarau (rhithiol)
- Crynodeb a dadansoddiad o arolwg Gwaelodlin
- Arolwg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (mewn perthynas â'r Rhwydwaith Ymarferwyr YGG)
- Briffiadau deddfwriaeth
- Datblygu model aelodaeth
- Cynnal presenoldeb cyfryngau cymdeithasol (ymgysylltu parhaus, creu cynnwys gwreiddiol, a llwyfannau ychwanegol i'w defnyddio)
- Newyddlen BRIFF wythnosol
- Astudiaethau achos a rhannu arfer da
- Bod yn rhan mewn ymgyrchoedd ac wythnosau/ misoedd ymwybyddiaeth
- Ymateb i ymgynghoriadau
- Gweithdai a chefnogaeth arall ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaid.